# Canllawiau ymgeisio am grant

# Prif Grantiau Gwirfoddoli Cymru 2025/28

Nod y canllaw hwn yw helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am Brif Grantiau Gwirfoddoli Cymru, gan gynnwys amcanion a blaenoriaethau'r grant, pwy sy'n gallu gwneud cais am gyllid a'r hyn sydd ei angen gan ymgeiswyr.

Bydd canllawiau penodol sy'n ymwneud â chwestiynau unigol y cais wedi'u cynnwys o fewn y ffurflen gais ar MAP.

**Dyddiad cau: 17 Ionawr 2025**

## CYNNWYS

**CYFLWYNIAD I BRIF GRANT GWIRFODDOLI CYMRU** ........ 3
**NODAU'R GRANT** ........ 3
**BLAENORIAETHAU'R GRANT** ........ 4
**A YW EICH MUDIAD YN GYMWYS I YMGEISIO?** ........ 5
**CYLLID** ........ 6
**Y BROSES YMGEISIO** ........ 6
**BETH YW'R MEINI PRAWF ASESU AR GYFER PROSIECTAU?** ........ 7
**BETH MAE PROFIAD GWIRFODDOLI O ANSAWDD UCHEL YN EI OLYGU?** ........ 8
**PA DDOGFENNAU SYDD ANGEN I MI EU DARPARU?** ........ 9
**COFRESTRU GYDA MAP** ........ 10
**TALU GRANTIAU** ........ 10
**DYDDIADAU PWYSIG** ........ 11
**ADNODDAU DEFNYDDIOL** ........ 11

## CYFLWYNIAD I BRIF GRANT GWIRFODDOLI CYMRU

Mae Gwirfoddoli Cymru yn ymwneud â'r '...math o wlad rydyn ni am fod'.

Gwirfoddolwr yw rhywun sy'n ymrwymo amser ac egni er budd y gymdeithas a'r gymuned, a gellir gwirfoddoli mewn nifer o wahanol ffyrdd. Caiff ei wneud gan rywun o'i wirfodd a'i ddewis ei hun heb feddwl am elw ariannol. Nod Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru yw; (i) Ceisio gwella'r mynediad at wirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas; (ii) Annog gwirfoddolwyr i fynd ati'n fwy effeithiol i gymryd rhan, gan gynnwys trwy hyfforddiant priodol; a, (iii) Codi statws gwirfoddoli a gwella'r darlun sydd gan bobl ohono (Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: *Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau, 2015*).

Cenhadaeth Llywodraeth Cymru yw cyflwyno ffyniant i bawb. Ei nod hirdymor yw creu Cymru ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu **cyfleoedd i fwy o bobl wirfoddoli**, ac mae'n cydnabod bod gan y cymunedau cryfaf bobl sydd eisiau camu ymlaen i gyflawni pethau. Unigolion yw'r rhain nad ydynt fel arfer yn gofyn am unrhyw wobr, heblaw gweld eu cymuned yn ffynnu.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella'r ffordd y mae Cymru'n cyflawni llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Trwy fudiadau cyllido a fydd yn cefnogi a hyfforddi unigolion i gyfrannu drwy gyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd, bydd cynllun Gwirfoddoli Cymru yn cyfrannu at bob un o'r saith nod. Mae gwirfoddoli yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ac uniongyrchol ar yr unigolyn a'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr cenedlaethol yn hanfodol i gyflawni cenadaethau a gwerthoedd grwpiau trydydd sector.

Mae **Prif Grant Gwirfoddoli Cymru** yn gynllun a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a gwella gwirfoddoli yng Nghymru. Gweinyddir y cynllun gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

## NODAU'R GRANT

Nodau'r cynllun yw :

- Cynyddu ymgysylltiad a boddhad gwirfoddolwyr drwy gael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o'r gymdeithas.

- Cefnogi'r gwaith o greu a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli positif o ansawdd uchel yng Nghymru.

- Hybu newidiadau mewn mudiadau buddiolwyr er mwyn ymwreiddio gwirfoddoli yn eu diwylliant, e.e. ennill dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

## BLAENORIAETHAU'R GRANT

Dangos y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr a gwirfoddoli yn ei wneud at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a galluogi mudiadau i wneud cynnydd tuag at 'Ffyrdd o Weithio' Llywodraeth Cymru.

1) **Cymru lewyrchus**

2) **Cymru Gydnerth**

3) **Cymru sy'n fwy cyfartal**

4) **Cymru iachach**

5) **Cymru o gymunedau cydlynus**

6) **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

7) **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

**Yn unol â'n hymrwymiad i 'Cymru Fwy Cyfartal', rydym yn arbennig o awyddus i groesawu ceisiadau gan fudiadau sy'n cael eu rhedeg gan neu er budd pobl â nodweddion gwarchodedig.**

## A YW EICH MUDIAD YN GYMWYS I YMGEISIO?

Gall eich mudiad wneud cais:

- Os yw'n fudiad nid-er-elw ac yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sectorau preifat
- Os bydd y prosiect/gweithgaredd a gynigir yn cael ei gynnal yng Nghymru (nid yw cyflogaeth y tu allan i Gymru yn cael ei chefnogi o dan y cynllun grant hwn)
- Os yw'n fudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar hyn o bryd er budd y gymuned, yn cael ei gefnogi gan bolisi gwirfoddoli NEU os yw'n fudiad sydd wedi datblygu polisi gwirfoddoli ac yn credu y bydd cynnwys gwirfoddolwyr o fudd i'r gymuned
- Os yw'r prosiect a gynigir yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd ac yn gallu defnyddio system i fonitro ac olrhain cyfraniad a chynnydd gwirfoddolwyr (gall Platfform Gwirfoddoli Cymru helpu)
- Os yw'n fodlon ac abl i gymryd rhan mewn gwerthusiad annibynnol o effaith y grantiau
- **Os oes ganddo bolisi Diogelu addas i'r diben –** ni fydd cais a gyflwynir lle mae angen gwelliannau mawr i'w polisi diogelu yn cael ei gyfeirio at y panel. (https://knowledgehub.cymru/cy/resources/polisi-diogelu-canllawiau/)

**Ni all** eich mudiad wneud cais os ydych yn:

- Fudiad gwleidyddol
- Mudiad statudol
- Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) neu'n Ganolfan Gwirfoddoli
- Mudiad preifat

Noder mai dim ond un cais y gellir ei wneud gan yr un mudiad mewn unrhyw gylch grant.

Rydym yn arbennig o awyddus i groesawu ceisiadau gan fudiadau a arweinir gan bobl â nodweddion gwarchodedig neu fudiadau sy'n gweithio er budd pobl â nodweddion gwarchodedig. Os yw'r cylch grant yn gystadleuol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ceisiadau hyn. Bydd angen i geisiadau ddangos effaith ystyrlon a diriaethol ar y cymunedau â budd a ddewiswyd yn y cais.

## CYLLID

Gall mudiadau wneud cais am ddyfarniadau o hyd at ddwy flynedd gan ofyn am uchafswm o £30,000 y flwyddyn.

Ni fydd dyfarniad blwyddyn dau yn cael ei gadarnhau hyd nes y cynhelir adolygiad o berfformiad y prosiect ym mis 10. Llwyddiant yr adolygiad hwn, a fydd yn cael ei gynnal gan dîm grantiau CGGC a Bwrdd Prosiect Grantiau Gwirfoddoli Cymru, fydd yn pennu a fydd dyfarniad blwyddyn dau yn cael ei gadarnhau a'r taliad yn cael ei ryddhau.

Mae'r gronfa hon yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllid refeniw; ond gall eich cais am gyllid gynnwys costau ar gyfer prynu cyfarpar 'cyfalaf' llai, gan gynnwys deunyddiau traul (er enghraifft, cyfarpar diogelu personol, cyfarpar TG ac ati).

## Y BROSES YMGEISIO

Mae'r broses ymgeisio wedi'i rhannu'n ddau gam ar gyfer ymgeiswyr.

**Cam 1: Cais**

Yn rhan gyntaf y cais, byddwch chi'n rhoi manylion eich mudiad, gan gynnwys polisïau, cyfrifon diweddar a manylion cyswllt.

Yng ngweddill y cais, bydd y prosiect yn cael ei ddisgrifio'n fanwl. Bydd hefyd angen i chi ddangos sut bydd y prosiect yn gweithio at o leiaf tri o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Unwaith y bydd y cais yn cael ei gyflwyno, bydd y Tîm Grantiau yn asesu'r atebion yn erbyn y meini prawf sgorio. Ni fydd cyfle i ddiwygio'r atebion a ddarparwyd ar y cam hwn ac ni fydd adborth yn cael ei roi hyd nes y bydd y llythyrau dyfarnu wedi'u dosbarthu. Mae'n bosibl y bydd rhywun yn cysylltu â chi i ofyn am wybodaeth/dogfennau ategol os yw'r rhain ar goll. Bydd y ceisiadau dim ond yn cael eu sgorio ar sail pob cwestiwn a'r canllawiau i bob cwestiwn.

Bydd sampl o'r ceisiadau yn cael eu gwirio am ansawdd cyn y bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Gwirfoddoli Cymru.

**Cam 2: Bwrdd Gwirfoddoli Cymru***

Bydd yr holl geisiadau sy'n pasio'r cwestiynau â'r sgorau isaf yn cael eu hatgyfeirio i Fwrdd Gwirfoddoli Cymru. Bydd y Bwrdd yn penderfynu pa geisiadau i'w cyllido. Gallant hefyd wneud argymhellion am gyllid rhannol pan fo'n briodol/yn unol â'r cyllid sydd ar gael.

Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cymeradwyo'r penderfyniad terfynol, bydd llythyrau canlyniad yn cael eu hanfon at bob ymgeisydd.

> ***Bwrdd Gwirfoddoli Cymru** sy'n rhoi'r cyfeiriad strategol a'r trosolwg o'r cynllun grant. Mae'n cefnogi'r gwaith o arfarnu a dyfarnu grantiau ac yn adolygu perfformiad prosiectau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o Fwrdd CGGC ac aelodau a bennwyd o'r gymuned gwirfoddoli yng Nghymru.

## BETH YW'R MEINI PRAWF ASESU AR GYFER PROSIECTAU?

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol: -

a) Disgrifiad eglur a phriodol o'r prosiect

b) Y gallu i arddangos yr angen

c) Ansawdd y profiad gwirfoddoli

d) Sut mae'r prosiect wedi'i ddatblygu mewn modd cydweithredol ac integredig er mwyn galluogi'r amcanion i fod yn gynaliadwy

e) Effaith y prosiect

f) Targedau a chyllideb y prosiect

## BETH MAE PROFIAD GWIRFODDOLI O ANSAWDD UCHEL YN EI OLYGU?

Argymhellwn eich bod yn defnyddio Safonau Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr fel fframwaith i lywio datblygiad eich prosiect gwirfoddoli neu ei wella.

Awgryma'r safonau hyn y byddai mudiadau yn gwella dull eu mudiad o ymdrin â gwirfoddoli pe bai nhw'n canolbwyntio ar y meysydd hyn:

Gwirfoddoli yn cael ei ymwreiddio o fewn gweledigaeth, gwerthoedd, diwylliant a nodau cyffredinol y mudiad a'i effaith yn cael ei gydnabod a'i gyfathrebu. Bod eich mudiad yn deall pam y mae'n cynnwys gwirfoddolwyr.

Pobl, polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod gwirfoddoli yn cael ei reoli'n dda.

Mudiadau a phrosiectau yn ymdrin â chynhwysiant, tegwch ac amrywiaeth mewn modd positif ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i wneud gwirfoddoli'n hygyrch.

Sicrhau bod pobl yn gallu cael gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli'n hawdd, gweld a ydynt yn addas iddynt a chymryd rhan yn hawdd.

Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi ar bob adeg, eu bod yn teimlo'n rhan o'r mudiad a bod eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth.

Gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi a bod cyfleoedd i wirfoddoli dyfu a datblygu drwy eu profiadau.

Gellir lawrlwytho'r safonau yn https://investinginvolunteers.co.uk/download-the-standard/ (Saesneg yn unig)

Gallai mudiadau gynnwys y gost o fynd drwy'r dyfarniad fel un o'u costau grant.

**Mae Sesiwn Wybodaeth ar Fuddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn cael ei chynnal ar 3 Rhagfyr 2024. I archebu lle, anfonwch e-bost i grantiaugwirfoddolicymru@wcva.cymru.**

## PA DDOGFENNAU SYDD ANGEN I MI EU DARPARU?

Bydd y cais yn gofyn i chi gyflwyno dogfennau ar-lein ar ffurf PDF wedi'i sganio.

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau sy'n benodol i'ch mudiad, ond os nad oes gan eich mudiad fersiynau terfynol o unrhyw un o'r polisïau ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol am gymorth (gellir dod o hyd i'r cyfeiriadur yma). Mae'n bosibl na fydd yn gwneud eich cais yn anghymwys, ond byddem yn disgwyl gweld bod polisïau yn cael eu datblygu cyn y dyfarniad:

- Polisi Gwirfoddoli (gweler enghraifft o Bolisi Gwirfoddoli Enghreifftiol)
- Dogfen lywodraethu
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Amgylcheddol
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Diogelu Data (sy'n dangos cydymffurfiad â'r GDPR) – gweler y canllawiau: https://knowledgehub.cymru/cy/resources/diogelu-data-a-gpdr/
- Polisi Diogelu (rhaid i bolisïau diogelu fod yn addas i'r diben. Os gwelir bod angen gwneud diweddariadau/diwygiadau, byddwch chi'n cael gwybod. **Ni fydd unrhyw gais yn cael ei argymell i'r panel heb bolisi Diogelu digonol**) gweler y canllawiau: https://knowledgehub.cymru/cy/resources/polisi-gwirfoddoli-enghreifftiol/
- Set ddiweddaraf o gyfrifon archwiliedig llawn
- Set ddiweddaraf o gyfrifon drafft (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed NEU gyfrifon rheoli (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed)
- Cyfrifon rhagolwg (ar gyfer mudiadau newydd nad ydynt wedi cyflwyno cyfrifon eto). Bydd hefyd angen i chi gyflwyno dogfennau sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect:
- Cynllun cynefino/hyfforddi gwirfoddolwyr
- Disgrifiadau rôl gwirfoddolwyr
- Proffil prosiect (gan gynnwys targedau a chyllideb) (bydd angen cwblhau hwn ar dempled gorfodol CGGC)

## COFRESTRU GYDA MAP

Er mwyn gwneud cais am Brif Grant Gwirfoddoli Cymru, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ymgeisio Amlddiben CGGC (MAP). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi drwy nodi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y dudalen hafan.

Gall mudiadau gofrestru drwy fynd i'r wefan: [map.wcva.cymru](map.wcva.cymru)

Unwaith byddwch wedi cofrestru gyda MAP, byddwch yn gallu ymgeisio am unrhyw gyfleoedd cyllido a weinyddir gan CGGC.

## TALU GRANTIAU

Bydd taliadau grant yn cael eu rhannu rhwng blwyddyn un a blwyddyn dau fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn un | 90% ymlaen llaw unwaith y bydd unrhyw amodau o'r dyfarniad wedi'u bodloni | 10% ar ôl cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn un yn llwyddiannus |
| Blwyddyn dau | 90% ymlaen llaw unwaith y bydd unrhyw amodau o'r dyfarniad wedi'u bodloni | 10% ar ôl cyflwyno adroddiad diwedd prosiect yn llwyddiannus |

Bydd y taliadau yn cael eu gwneud i gyfrif banc y mudiad. Ni fydd unrhyw daliadau grant yn cael eu talu i gyfrif banc unigolyn.

Yn dilyn adroddiadau interim, os credir bod prosiect yn tangyflawni'n sylweddol yn erbyn y targedau, gall taliadau gael eu cadw'n ôl hyd nes y bydd camau wedi'u cymryd i leihau'r effaith ar gyflawniad cyffredinol y prosiect. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall dyfarniadau grant gael eu tynnu'n ôl a gellir dod â phrosiectau i ben yn gynnar.

Bydd adroddiadau interim yn cael eu cyflwyno ar ôl 6 mis ac ar ôl cwblhau'r

prosiect, ond gellir trefnu mwy o fonitro os yw'r mudiad yn cael anhawster bodloni gofynion y dyfarniad. Bydd rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth/tystiolaeth sydd ei hangen yn ystod yr ymweliadau hyn yn cael ei darparu mewn Canllawiau Rheoli Prosiect pan fydd y grant yn cael ei dyfarnu.

## DYDDIADAU PWYSIG

**Dyddiad lansio**: 28 Hydref 2024

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: 17 Ionawr 2025

**Canlyniad y cais am grant**: Mawrth 2025

**Dyddiad cynharaf dechrau prosiectau**: 1 Ebrill 2025

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

Os nad ydych chi'n aelod o'ch CVC lleol ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i restr o bob CVC yma.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – tudalen wybodaeth CGGC
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – tudalen y Comisiynydd
- Polisi Gwirfoddoli: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau (Llywodraeth Cymru, 2015)
- Ffyniant i bawb – y strategaeth genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017)
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr- Adnoddau a gwybodaeth